# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

# Cyfraniadau gan grwpiau ffocws

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r dystiolaeth a gasglwyd gan gynnwys cyfraniadau penodol gan y grwpiau ffocws a'r cyfranogwyr.

## Methodoleg

Fel rhan o Gyfnod 1 o waith craffu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'r Tîm Allgymorth wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd ar gyfer grwpiau ffocws ar hyd a lled Cymru. Aeth y Tîm Allgymorth ati i geisio barn defnyddwyr Canolfannau Dydd am ddwy elfen allweddol o'r Bil sef: diogelu ac ymyrryd; a dewis a rheoli. Cynhaliwyd grwpiau ffocws yn y pum rhanbarth etholiadol yng Nghymru ac mae manylion yr holl sefydliadau yr ymwelwyd â nhw ar gael yn yr adran a ganlyn.

## Crynodeb

Cyfanswm y sefydliadau a gyfranogodd: 7

Cyfanswm y grwpiau ffocws: 8

Cyfanswm y cyfranogwyr: 61

## Canolfan Dydd y Tyllgoed, y Tyllgoed (Caerdydd)

**Awdurdod Lleol**

*Mae Canolfan Dydd y Tyllgoed yn y Tyllgoed, ar gyrion Caerdydd. Mae'r Ganolfan yn gwasanaethu'r dref a'r ardal gyfagos, ac mae'n denu defnyddwyr gwasanaethau o gefndiroedd breintiedig a difreintiedig.*

*Saesneg oedd cyfrwng y grŵp ffocws.*

**Dyddiad:** 18/04/2013

**Nifer y cyfranogwyr:** 8 (merched)

**Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Tregaron (Ceredigion)**

**Awdurdod Lleol**

*Mae Canolfan Gofal Dydd Bryntirion yn nhref fach wledig Tregaron, Ceredigion. Mae'r Ganolfan yn gwasanaethu'r dref a phentrefi gwledig cyfagos oddeutu 14 milltir o Aberystwyth. Mae'r Ganolfan yn rhan o gynllun 'Cymunedau yn Gyntaf'.*

*Cafodd cyfarfodydd y ddau grŵp ffocws eu cynnal yn ddwyieithog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.*

**Dyddiad:** 30/04/2013

**Nifer y cyfranogwyr:**

**Grŵp 1:** 4 merch (2 ohonynt yn siarad Cymraeg)

**Grŵp 2:** 2 ddyn (siaradwyr Cymraeg), 2 ferch

**Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr)**

**Cymunedol**

*Un o gaffis cymunedol Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yw Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr. Gall gofalwyr fynd yno i gyfarfod â gofalwyr eraill, cyfarfod â ffrindiau newydd neu gymryd rhan mewn gweithgareddau.*

*Saesneg oedd cyfrwng y grŵp ffocws.*

**Dyddiad:** 24/04/2013

**Nifer y cyfranogwyr:** 11 (cymysg - 2 ddyn, 9 merch)

## Canolfan Dydd Melrose, Shotton (Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint)

**Awdurdod Lleol**

*Mae Canolfan Dydd Melrose yn gwasanaethu tref Shotton ac ardaloedd cyfagos Glannau Dyfrdwy. Caiff yr ardal ei hystyried yn ardal ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd.*

*Saesneg oedd cyfrwng y grŵp ffocws.*

**Dyddiad:** 25/04/2013

**Nifer y cyfranogwyr:** 8 (cymysg - 1 dyn, 7 merch) gan gynnwys 2 aelod o staff

## Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr)

**Awdurdod Lleol**

*Mae Canolfan Dydd Stryd Minerva yn gwasanaethu tref Pen-y-bont ar Ogwr ac ardaloedd ym mhen isaf y Cwm*

*Saesneg oedd cyfrwng y grŵp ffocws.*

**Dyddiad:** 24/04/13

**Nifer y cyfranogwyr:** 7 (cymysg - 4 merch, 3 dyn) a 2 aelod o staff

**Canolfan Dydd Widdershins, Griffithstown (Torfaen)**

**Menter gymdeithasol:**

*Mae Canolfan Dydd Widdershins yn gwasanaethu Griffithstown yn etholaeth Torfaen. Mae'r Ganolfan mewn ardal breswyl yn bennaf ger Pont-y-pŵl.*

*Saesneg oedd cyfrwng y grŵp ffocws.*

**Dyddiad:** 23/04/13

**Nifer y cyfranogwyr:** 12 (cymysg - 10 merch, 2 ddyn) ac 1 aelod o staff

**Canolfan Dydd Encil y Coed, Criccieth (Gwynedd)**

**Awdurdod Lleol**

*Mae Canolfan Dydd Encil y Coed yn gwasanaethu ardal Criccieth a'r pentrefi cyfagos.*

*Cafodd y grŵp ffocws ei gynnal yn ddwyieithog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.*

**Dyddiad:** 03/04/13

**Nifer y cyfranogwyr:** 7 (cymysg - 5 merch, 2 ddyn) ac 1 aelod o staff

**<u>Senario 1 - Dewis a rheoli</u>**

*Mae Mr a Mrs A yn eu 70au hwyr ac yn dal i fyw yn yr un tŷ lle magwyd eu plant. Mae Mrs A wedi bod yn gofalu am ei gŵr sydd â phroblemau iechyd difrifol ac sy'n dangos arwyddion cynnar clefyd Alzheimer ond mae ei hiechyd ei hun yn dioddef ac mae angen cymorth ychwanegol arni hi a'i gŵr. Maent yn benderfynol o barhau i fyw'n annibynnol ac yn bendant na fydd yr un ohonynt yn symud i gartref preswyl.*

*Mae'r cyngor lleol yn trefnu iddynt gael gofal yn y cartref gan asiantaeth gofal preifat. Mae Mr a Mrs A yn ei chael yn anodd ymdopi â'r trefniant gan nad yw'n diwallu eu hanghenion. Bydd gweithwyr gofal yn galw ar adegau  gwahanol ac anaml y bydd yr un staff yn ymweld mwy na deuddydd ar ôl ei gilydd. Mae'r system gofal yn eu drysu ac nid ydynt yn gwybod pa ddewis arall sydd ar gael iddynt.*

| **Cwestiwn 1) Sut ydych chi'n teimlo ynglŷn â'r dewis sydd ar gael i Mr a Mrs A o ran eu hanghenion gofal cymdeithasol?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oedd gan Mr a Mrs A ddigon o ddewis.*<br><br>*Teimlai nifer o gyfranogwyr y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol bennu amseroedd penodol i ddod draw i'w helpu yn ystod y dydd, yn enwedig o ran amser prydau bwyd. Roedd teimlad cyffredinol ei bod yn bwysig cadw at yr un drefn bob dydd.*<br><br>*Esboniodd un o'r cyfranogwyr na chafodd hi a'i gŵr (a oedd yn dioddef o glefyd Alzheimer) gymorth gan neb o'r tu allan i'r teulu am dros 7 mlynedd a theimlent nad oedd ganddynt fawr o ddewis o ran darparwyr gofal. Fodd bynnag, roedd y ffaith bod y ddau'n awyddus i gadw'u hannibyniaeth yn un o'r ffactorau dros ymdopi ar eu pennau eu hunain am gyfnod estynedig.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Teimlai'r holl gyfranogwyr nad oedd digon o ddewis ar gael iddynt.*<br><br>*Fodd bynnag, roedd yr holl gyfranogwyr yn teimlo y dylai aelodau'r teulu estynedig fod yn gwneud mwy i helpu Mr a Mrs A drwy ddarparu gofal. Os na fyddent yn cael mwy o ddewis, dylai Mr a Mrs A fynd i gartref gofal preswyl.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Dywedodd yr holl gyfranogwyr fod angen mwy o gyfathrebu rhwng y darparwr gofal, y Cyngor a Mr a Mrs A. Byddai hyn yn rhoi cyfle i bawb drafod y broblem yn agored a meithrin perthynas o ymddiriedaeth o'r dechrau un.* |

| | |
|---|---|
| | *Mae un cyfranogwr yn aros am ei Asesiad Cychwynnol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae wedi bod yn aros am dros bythefnos ac nid yw'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd iddi. Byddai'n ddefnyddiol pe bai gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol un man cyswllt i drafod ei hanghenion ac roedd yn teimlo nad oedd neb ar gael i egluro'i dewisiadau.* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd yr holl gyfranogwyr yn teimlo nad oedd gan Mr a Mrs A ddigon o ddewis.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Teimlai'r cyfranogwyr y dylai fod gan Mr a Mrs A fwy o ddewis o ran eu hanghenion gofal cymdeithasol ac y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol hwyluso hyn.*<br><br>*Teimlent y dylai fod gan Mr a Mrs A un gofalwr sy'n gyfrifol amdanynt y rhan amlaf, gan eu bod yn teimlo'i bod yn bwysig cadw at yr un drefn bob dydd.*<br><br>*Soniodd un cyfranogwr am asiantaeth gofal penodol nad oedd yn gallu ymdopi â'i hanghenion meddygol (trin briw) a'i bod wedi gorfod defnyddio asiantaeth arall.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd y cyfranogwyr i gyd o'r un farn ac yn teimlo nad oedd gan Mr a Mrs A ddigon o ddewis o ran eu hanghenion gofal cymdeithasol. Roedd yn arbennig o bwysig sicrhau cysondeb yn y gofal yn yr achos hwn, oherwydd salwch Mr A.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Roedd y cyfranogwyr i gyd o'r un farn ac yn teimlo nad oedd gan Mr a Mrs A ddigon o ddewis o ran eu hanghenion gofal cymdeithasol.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oedd gan Mr a Mrs A ddigon o ddewis, ond teimlent fod hyn, rywfodd, yn rhywbeth yr oedd yn rhaid iddynt ei dderbyn.*<br><br>*Soniodd rhai cyfranogwyr na fyddai Mr a Mrs A am gael mwy o ddewis pe bai hynny'n golygu bod mwy o waith, fel llenwi ffurflenni.*<br><br>*Soniodd un hefyd nad yw pobl hŷn bob amser yn hoffi gorfod dewis a'i bod yn well ganddynt i eraill ddewis/penderfynu drostynt.* |

| **Cwestiwn 2) Ym mha agwedd ar eich bywyd hoffech chi fwy o ddewis?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr am gael gofal mwy cyson ac yn teimlo bod cael yr un gofalwr yn holl bwysig.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Nododd aelodau'r grŵp ffocws y canlynol:*<br>▪ *Mwy o ddewis o ran cysondeb y gofal a'r gofalwr er mwyn meithrin perthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth;*<br>▪ *Ar ôl meithrin ymddiriedaeth, bydd y gofalwyr yn fwy ymwybodol o'u hanghenion, yr hyn y maent/nad ydynt yn ei hoffi (yn enwedig o ran prynu bwyd)* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Dywedodd y cyfranogwyr nad oedd digon o wybodaeth ar gael iddynt am y dewisiadau posibl o ran gofal.*<br><br>*Teimlai un cyfranogwr nad yw'r asesiadau gofal cychwynnol yn addas i'r diben. Yn aml, pan gewch eich asesu, nid ydych yn gwybod beth yw'ch anghenion nes cewch y gwasanaethau gofal, a gall hynny olygu bod angen treulio mwy o amser wedyn yn newid y pecyn gofal.*<br><br>*Dywedodd un cyfranogwr bod y gwasanaethau cymdeithasol yn amharod i ateb cwestiynau pan fydd yn ffonio, ac nad yw'r wybodaeth angenrheidiol ganddynt wrth law.* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Nododd aelodau'r grŵp ffocws y canlynol:*<br>▪ *Mwy o ddewis o ran cysondeb y gofalwyr.*<br>▪ *Dewis pryd i fynd i'r gwely;*<br>▪ *Mwy o ddewis o ran pwy sy'n darparu gofal - roedd ymddiriedaeth yn hanfodol, a dywedodd yr holl gyfranogwyr ei bod yn bwysig meithrin perthynas â'r rhai a oedd yn darparu'r gofal.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Ar y dechrau, cafodd y grŵp drafferth creu rhestr, ond trafodwyd y materion isod:*<br>▪ *Y gallu i newid y gweithwyr gofal os nad ydynt yn cyd-dynnu â nhw - dylid caniatáu iddynt wneud hynny;* |

| | |
|---|---|
| | ▪ *Trefnu apwyntiadau i gyd-fynd â'u trefn ddyddiol;*<br>▪ *Lwfansau teithio a darparwyr;* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Teimlai nifer fechan o'r grŵp ffocws y dylid rhoi mwy o ddewis a gwybodaeth am y person a all ofalu amdanynt.*<br><br>*Tynnodd un cyfranogwr sylw at y risgiau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cwmnïau preifat. Nid yw nifer o ofalwyr sy'n gweithio i gwmnïau preifat yn treulio'r un faint o amser gyda'r henoed, yn eistedd gyda nhw, er enghraifft, i gael paned a sgwrs. Yn aml iawn, dyma'r unig adeg y bydd yr henoed yn cael cyfle i sgwrsio â rhywun yn ystod y dydd. Awgrymodd y cyfranogwr hefyd nad oes digon o waith monitro'n cael ei wneud i sicrhau eu bod yn darparu gofal o safon.*<br><br>*Trafododd aelodau eraill o'r grŵp ffocws y syniad o reoleiddio nifer y gofalwyr sy'n ymweld â phobl oedrannus, gan gyfyngu'r nifer i ddau neu dri, er mwyn iddynt fedru meithrin perthynas â'i gilydd. Drwy gael yr un gofalwyr, mae modd meithrin perthynas a dechrau trafodaeth ag unigolion sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol, gan ddod â phroblemau i'r amlwg yn gynt.*<br><br>*Dylai pobl gael gwybod am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r drefn arferol, gan fod newidiadau o'r fath yn peri gofid.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Roedd prif thema'r adran hon yn amlygu'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael i bobl hŷn y mae angen gofal arnynt.*<br><br>*Dadleuodd un cyfranogwr yn gryf y dylai rhywun amlinellu'r holl ddewisiadau a'r gwasanaethau a oedd ar gael, gan ddweud nad oedd hyn byth yn cael ei esbonio'n dda. Wrth amlinellu'r gwasanaethau a oedd ar gael - dylid cynnwys gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r Cyngor. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod yn rhaid i sefydliadau, fel Cymdeithas Alzheimer, lobïo ar ran pobl ac egluro'r gwahanol wasanaethau a'r budd-daliadau y gallant eu hawlio.*<br><br>*Teimlai aelodau o'r grŵp ffocws fod angen rhagor o wybodaeth ac y dylai fod yn haws cael hyd i'r wybodaeth honno. Awgrymodd nifer o gyfranogwyr y dylid darparu rhagor o wybodaeth ym mannau cyswllt* |

| | |
|---|---|
| | *yr holl wasanaethau fel meddygfeydd, canolfannau iechyd etc. At y diben hwn, dylai pob maes gwasanaeth rannu'r cyfrifoldeb dros roi gwybodaeth i'r cyhoedd.*<br><br>*Teimlai nifer o gyfranogwyr y dylid rhoi rhagor o wybodaeth i'r gofalwyr eu hunain.*<br><br>*Tanlinellodd un cyfranogwr hefyd pa mor bwysig oedd medru dewis pa ofalwr sy'n ymweld â hi gan ei bod o gymorth mawr i un gofalwr ddod i'w helpu, gan sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Ni allai'r cyfranogwyr greu rhestr o'r pethau yr hoffent fod â mwy o ddewis drostynt, ond nodwyd bod pobl yn hoffi cadw at yr un drefn bob dydd a'i bod yn bwysig iddynt gael dewisiadau os ydynt am barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd.*<br><br>*Teimlent y dylid cael mwy o drafodaeth er mwyn iddynt deimlo bod ganddynt fwy o lais mewn penderfyniadau - dylai pawb weithio gyda'i gilydd.*<br><br>*Soniodd un cyfranogwr na fyddai Mr a Mrs A efallai am ddweud na, na chwyno am y dewisiadau a oedd ar gael iddynt.* |

| **Cwestiwn 3) Rhoddwyd braslun o fentrau cymdeithasol: sut y mae model y mentrau cymdeithasol yn cymharu â gofal gan gynghorau? Beth yw manteision ac anfanteision posibl y model hwn?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Nid oedd y cyfranogwyr yn deall y syniad o fentrau cymdeithasol mewn gwirionedd.*<br><br>*Yn gyffredinol teimlai'r grŵp ffocws mai'r gost fyddai'r brif ystyriaeth, sef faint y byddai unrhyw fenter gymdeithasol yn debygol o'i godi.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Ychydig iawn a wyddai'r grŵp am fentrau cymdeithasol. Er bod y grŵp o blaid cael mwy o ddewis, yn gyffredinol, roedd braidd yn ansicr ynglŷn â'r syniad o fentrau cymdeithasol.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Amherthnasol* |

| | |
|---|---|
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Ychydig iawn a wyddai'r grŵp am fentrau cymdeithasol. Er bod y grŵp o blaid cael mwy o ddewis, yn gyffredinol, teimladau llugoer oedd gan yr aelodau tuag at y syniad o fentrau cymdeithasol.*<br><br>*Dyma rai o'r pryderon:*<br><br>▪ *Y posibilrwydd i Fentrau Cymdeithasol dorri corneli ac y byddai hynny'n arwain at ddirywiad mewn safonau. A fyddent yn cael eu monitro'n effeithiol?*<br>▪ *Syniadau gwahanol gan gymunedau gwahanol - gan arwain at ddiffyg penderfyniadau clir.*<br>▪ *Pryderon am reolaeth ac atebolrwydd democrataidd ym model y fenter gymdeithasol.*<br>▪ *Pryderon am breifateiddio gofal cymdeithasol.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Teimlai'r grŵp ffocws fod mentrau cymdeithasol, yn ddamcaniaethol, i'w gweld yn cynnig gwell model na darparwyr preifat gan y byddai'n haws cadw llygad arnynt a monitro'u gwaith.*<br><br>*Cafodd y grŵp ffocws drafferth trafod y cwestiwn hwn gan nad oedd yr aelodau'n gwybod llawer am fentrau cymdeithasol ac roedd yn anodd iddynt gynnig manteision ac anfanteision.*<br><br>*Manteision:*<br>▪ *Arian yn mynd i'r gymuned;*<br>▪ *Mwy o ymdeimlad o gymuned.*<br><br>*Anfanteision:*<br>▪ *Anghytuno o fewn y fenter gymdeithasol;*<br>▪ *Pobl ddibrofiad yn ei rhedeg.*<br><br>*Teimlai rhai cyfranogwyr y byddai barn pobl amdani (y fenter gymdeithasol) yn debygol o ddibynnu ar eu cefndir ariannol.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd aelodau'r grŵp ffocws yn gyffredinol yn teimlo fod mentrau cymdeithasol a'r syniad o ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, yn syniad da, ond doedd fawr o ymwybyddiaeth na dealltwriaeth o'r hyn roedd model y fenter gymdeithasol yn ei olygu yng nghyd-destun y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd yn* |

| | |
|---|---|
| | *anodd cael y cyfranogwyr i ddeall y goblygiadau posibl.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Teimlai'r grŵp ffocws yn gyffredinol ei bod yn syniad da darparu gwasanaethau yn y gymuned.*<br><br>*Pwysleisiodd Rheolwr y Ganolfan Dydd fod y model hwn yn bod eisoes yn Nhorfaen, ond nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol i'w gweld yn manteisio ar yr asedau cymunedol hyn.*<br><br>*Doedd fawr o ddealltwriaeth o'r hyn roedd model y Fenter Gymdeithasol yn ei olygu yng nghyd-destun y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd yn anodd cael y cyfranogwyr i ddeall y goblygiadau posibl.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Nid oedd y grŵp ffocws yn gwybod beth oedd mentrau cymdeithasol. Roedd y grŵp yn hoffi'r syniad o fentrau cymdeithasol, ond nid oedd yr aelodau'n gallu rhoi barn am y manteision / anfanteision.*<br><br>*Roeddent yn canmol Encil y Coed yn arw gan ddweud eu bod yn mynd yno'n amlach nag unwaith yr wythnos i gael cwmni ac i gymdeithasu.* |

| **Cwestiwn 4) A ddylid darparu gwasanaethau gofal drwy gyrff a gaiff eu rheoli neu eu dylanwadu gan gymunedau neu ddefnyddwyr gwasanaethau lleol, ac a ddylent fod yn sefydliadau di-elw?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Nid oedd y cyfranogwyr yn deall y syniad o fentrau cymdeithasol mewn gwirionedd.*<br><br>*Teimlai nifer o gyfranogwyr fod darparwyr preifat fel arfer yn ddrutach.*<br><br>*Dywedodd un cyfranogwr fod problem yn codi gan mai dim ond gweithwyr cymdeithasol sy'n penderfynu a gewch chi fynd i Ganolfannau Dydd ac, yn amlach na pheidio, nid yw pobl oedrannus yn cael cymorth nes bod argyfwng yn y teulu e.e. damwain, torri clun etc.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Cwestiwn tri (3):* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Amherthnasol* |

| | |
|---|---|
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd y grŵp ffocws yn cytuno na ddylai gwasanaethau gofal cymdeithasol wneud elw.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Roedd y grŵp ffocws yn cytuno na ddylai gwasanaethau gofal cymdeithasol wneud elw.*<br><br>*Teimlai'r cyfranogwyr y dylai cymunedau lleol ddylanwadu ar wasanaethau gofal os oeddent yn eu defnyddio, a theimlent ei bod yn bwysig cael cyfle i ddweud eu dweud.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Doedd fawr o ddealltwriaeth o'r hyn roedd model y Fenter Gymdeithasol yn ei olygu yng nghyd-destun y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd yn anodd cael y cyfranogwyr i ddeall y goblygiadau posibl.*<br><br>*Fodd bynnag, cytunodd yr holl gyfranogwyr fod Canolfan Dydd Stryd Minerva yn cael ei rhedeg mewn modd sy'n annog defnyddwyr i gyfrannu at benderfyniadau am weithgareddau etc.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Doedd fawr o ddealltwriaeth o'r hyn roedd model y Fenter Gymdeithasol yn ei olygu yng nghyd-destun y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd yn anodd cael y cyfranogwyr i ddeall y goblygiadau posibl.*<br><br>*Awgrymodd nifer o gyfranogwyr y gallai cymunedau lleol godi/cynhyrchu arian i ddarparu rhagor o wasanaethau gofal cymdeithasol yn y gymuned.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Amherthnasol* |

| **Cwestiwn 5) Fyddech chi'n fodlon cymryd rhan yn y gwaith o redeg mentrau cymdeithasol?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Yn gyffredinol, nid oedd y cyfranogwyr yn gwybod beth fyddai disgwyl iddynt ei wneud.*<br><br>*Teimlai nifer o gyfranogwyr nad oedd ganddynt yr amser na'r egni i gymryd rhan mewn mentrau cymdeithasol.* |

| | |
|---|---|
| | *Dywedodd un cyfranogwr y gallai fod yn fuddiol i bawb gymryd rhan oherwydd y wybodaeth a'r profiad a oedd ganddynt ar ôl gofalu am gymar.*<br><br>*Y teimlad cyffredinol oedd y dylid caniatáu i bobl hŷn gael llais mewn penderfyniadau os oedd y gallu ganddynt i wneud hynny, ond roedd amheuaeth ynglŷn â gallu'r rhan fwyaf i wneud hynny.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Teimlai'r holl gyfranogwyr eu bod yn rhy hen i fod yn rhan o'r gwaith o redeg unrhyw fath o fenter gymdeithasol, ac y byddai'r gwaith yn fwrn iddynt.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Amherthnasol* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd parodrwydd cyffredinol ymhlith y grŵp i roi o'u hamser pan oedd hynny'n bosibl.*<br><br>*Roedd nifer o gyfranogwyr yn pryderu am y ffaith mai'r un bobl oedd yn dueddol o helpu ac o roi o'u hamser ac y gallai system ffurfiol o fentrau cymdeithasol ofyn gormod gan y bobl hyn.*<br><br>*Pe gofynnwyd i ofalwyr gynorthwyo, nodwyd na fyddai ganddynt amser rhydd i wneud hynny oherwydd eu cyfrifoldebau.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Nid oedd y grŵp ffocws yn sicr iawn o'u hateb yn y cyswllt hwn - byddai'n dibynnu ar eu hamgylchiadau a'r hyn yr oedd angen iddynt ei wneud.*<br><br>*Teimlai'r grŵp ffocws y byddai menter gymdeithasol yn debygol o elwa pe bai gweithwyr cymdeithasol yn cymryd rhan ynddynt, gan fod angen pobl brofiadaol sy'n gwybod am beth y maent yn sôn.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Teimlai'r grŵp ffocws yn gyffredinol na fyddent yn fodlon cymryd rhan yn y gwaith o redeg menter gymdeithasol. Nid oeddent am fod yn rhan o'r gwaith o reoli/gweinyddu menter gymdeithasol, ond teimlent y dylid ymgynghori â nhw.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Teimlai'r grŵp ffocws yn gyffredinol y byddent yn fodlon rhoi eu barn, ac y byddent yn falch o gynnig syniadau am y modd y dylid rhedeg gwasanaethau; roedd y cyfranogwyr, fodd bynnag, yn amau a allent gyfrannu mwy na hynny.* |

| | |
|---|---|
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Amherthnasol* |

| **Cwestiwn 6) Pa bryderon fyddai gennych ynglŷn â bod yn rhan o'r gwaith o redeg menter gymdeithasol ?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Dyma'r prif bryderon a nodwyd:*<br>▪ *Yr amser y byddai angen ei dreulio'n gwneud y gwaith*<br>▪ *Yr ymrwymiad cyffredinol - dywedodd nifer o gyfranogwyr na wyddent sut y byddent yn teimlo o'r naill ddiwrnod i'r llall*<br>▪ *Rhwystrau ymarferol y byddai angen i rai eu hwynebu e.e. anableddau etc.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Eu gallu i gymryd rhan, ac y gallai fod yn ormod o ymrwymiad iddynt* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Amherthnasol* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd prinder amser i'w weld yn rhwystr* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Teimlai'r grŵp ffocws y byddai'r ffaith na fyddai'r sefydliad yn agored ac yn dryloyw'n peri pryder iddynt.*<br><br>*Awgrymwyd y gallai menter gymdeithasol weithio tra oedd yn wasanaeth newydd a thra oedd arian ac adnoddau ar gael, ond roedd perygl y gallai'r gwasanaeth ddirywio gydag amser.*<br><br>*Roedd un cyfranogwr yn pryderu am y strwythur a phwy fyddai'n gyfrifol am beth. Dyna pam roedd yn teimlo y byddai'n bwysig cael staff profiadol.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Gweler yr atebion i gwestiwn 5* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Dyma rai o'r pryderon:*<br>▪ *trefniadau ymarferol;*<br>▪ *cludiant;*<br>▪ *yr amser y byddai angen ei dreulio'n gwneud y gwaith* |

| | |
|---|---|
| | |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Amherthnasol* |

| **Cwestiwn 7) Manteision? Beth fyddai manteision defnyddio model y mentrau cymdeithasol / rhoi mwy o reolaeth i'r gymuned leol?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Nododd y grŵp ffocws nifer o fanteision posibl drwy roi mwy o reolaeth i'r gymuned leol, sef:*<br>▪ *ymdeimlad cynyddol o bwrpas a hunanhyder;*<br>▪ *mwy o reolaeth dros wasanaethau a'r posibilrwydd o greu mwy o ddewis;*<br>▪ *teimlai llawer o gyfranogwyr y gellid sicrhau'r un math o fanteision a allai godi o gymryd rhan mewn cyrff o'r fath (cadw'r meddwl yn effro, brwydro yn erbyn unigrwydd etc) drwy annog rhagor o bobl hŷn i fynd i Ganolfannau Dydd.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Amherthnasol* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Amherthnasol* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Teimlai'r grŵp ffocws yn gyffredinol ei bod yn beth da rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned a bod cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol yn helpu i roi hunan-barch a boddhad i bobl.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Hoffai'r grŵp ffocws gael cyfle i ddweud eu dweud, ond roedd yn amau a fyddai eu syniadau'n cael eu rhoi ar waith.*<br><br>*Teimlent fod strwythur y mentrau cymdeithasol yn bwysig iawn ac y dylid gwerthfawrogi'r holl staff a'r cyfranogwyr.*<br><br>*Teimlent y gallai'r model helpu i roi hyder a mwy o reolaeth i bobl oedrannus dros yr hyn roeddent am ei gael.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Maent yn fodlon ar y trefniant sydd ganddynt ar hyn o bryd gyda'r Ganolfan Dydd penodol hon, a bod nifer o'r manteision a geir o fod yn rhan o fenter gymdeithasol i'w cael drwy fynd i Ganolfannau Dydd.* |

| | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Dyma rai o'r manteision:*<br><br>▪ *cynnydd mewn boddhad personol a hunan-barch;*<br>▪ *gwell gwasanaethau i ddefnyddwyr eraill;*<br>▪ *y manteision cymdeithasol a geir drwy gynorthwyo eraill.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Amherthnasol* |

| **Cwestiwn 8) Amlinellwyd taliadau uniongyrchol: Sut ydych chi'n teimlo'n gyffredinol?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Teimlai'r grŵp ffocws yn gyffredinol y byddai'n well ganddynt i'r Cyngor ddyrannu gwariant ar eu rhan.*<br><br>*Amlinellodd nifer o gyfranogwyr eu pryderon am allu unigolion i reoli'r cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â thaliadau uniongyrchol.*<br><br>*Dim ond 1 cyfranogwr oedd yn cael gwasanaeth gofal yn y cartref (ac felly'n debygol o fod yn gymwys i gael taliadau uniongyrchol). Dywedodd y cyfranogwr mai ei merch oedd yn rheoli ei harian i gyd ar hyn o bryd, a'i bod yn anhebygol y byddai ganddi amser i ymdopi â'r gwaith gweinyddol ychwanegol a oedd ynghlwm wrth daliadau ychwanegol.*<br><br>*Dywedodd nifer o gyfranogwyr eraill mai aelod o'r teulu oedd yn gyfrifol am eu harian ac nad oeddent am i'w teuluoedd ysgwyddo mwy o faich.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Nid oedd y grŵp ffocws yn gwybod beth oedd taliadau uniongyrchol.*<br><br>*Soniodd rhai cyfranogwyr am yr anhawster roeddent eisoes yn ei wynebu'n ceisio cael arian drwy gyfrwng trydydd parti (h.y. gofalwr / aelod o'r teulu). Mae hyn yn golygu ysgrifennu llythyr / darparu prawf adnabod i'r trydydd parti ei gario. Gallai problemau tebyg godi gyda thaliadau uniongyrchol.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Teimlai'r cyfranogwyr fod hyn yn syniad eithaf da, er bod un yn pryderu am y gwasanaethau a fyddai'n cael eu darparu, a'r posibilrwydd y byddai mwy o ddewis ar gael i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol poblog fel Caerdydd, ac y gallai hynny arwain at brisiau a gwasanaethau mwy cystadleuol. Byddai'r sefyllfa mewn ardaloedd mewn gwledig fel Tregaron yn wahanol. Gallai gwasanaethau amrywio'n ôl eich cod post.* |

| | |
|---|---|
| | *Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn gobeithio y byddai asesiadau'n golygu y byddai'r rhai sydd â'r un problemau iechyd yn cael yr un swm o arian.* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Nid oedd y grŵp ffocws yn gwybod beth oedd taliadau uniongyrchol.*<br><br>*Roedd y grŵp ffocws yn gyffredinol yn erbyn y syniad o daliadau uniongyrchol. Dyma rai o'r pryderon:*<br><br>▪ *Diffyg gwybodaeth ac arbenigedd o ran gwario'r arian;*<br>▪ *Dim digon o amser nac egni i ymdopi â'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â thaliadau uniongyrchol;*<br>▪ *Gormod o gyfrifoldeb ar yr unigolyn;*<br>▪ *Gall y system fod yn agored i dwyll a gall pobl ei chamddefnyddio;*<br>▪ *Wrth ddefnyddio taliadau uniongyrchol, gall bobl ymrwymo i gytundebau cyfreithiol â darparwyr gofal cyn sylweddoli nad yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion ac nad yw'n ddigon da. Mae'n bosibl na allant dalu amdano a dim modd dirwyn y cytundeb i ben;*<br>▪ *Y perygl y bydd taliadau uniongyrchol yn dod â gofal gan y wladwriaeth i ben yn gynt;*<br>▪ *Diffyg rheoleiddio a diffyg atebolrwydd.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Nid oedd y grŵp ffocws yn gwybod beth oedd taliadau uniongyrchol.*<br><br>*Roedd rhai cyfranogwyr yn hoffi'r syniad gan y byddent yn teimlo mai nhw oedd yn 'rheoli' eu harian.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Nid oedd y cyfranogwyr yn gwybod fawr ddim am daliadau uniongyrchol ac roedd nifer yn dadlau y dylai'r Cyngor roi rhagor o wybodaeth iddynt.*<br><br>*Roedd yr ymateb yn gymysg, ac yn gyffredinol teimlai'r cyfranogwyr y dylai taliadau uniongyrchol fod ar gael er mwyn medru dewis gofal gan gorff heblaw'r awdurdod lleol, ond roedd llawer yn pryderu y byddai angen help arnynt i reoli'r cyfrifoldeb ariannol.*<br><br>*Er bod llawer o gyfranogwyr yn teimlo yr hoffent fod yn gyfrifol am eu materion ariannol eu hunain, teimlent y byddai angen i aelodau'r teulu (sydd eisoes yn rheoli'u harian) eu helpu ac i ysgwyddo'r baich.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins,*** | *Nid oedd y cyfranogwyr yn gwybod fawr ddim am daliadau uniongyrchol ac roedd nifer yn dadlau y dylai'r* |

| | |
|---|---|
| ***Torfaen*** | *Cyngor roi rhagor o wybodaeth iddynt.*<br><br>*Roedd nifer o gyfranogwyr yn barod i ystyried y syniad o daliadau uniongyrchol.*<br><br>*Dywedodd un cyfranogwr ei bod yn disgwyl cael clun newydd ac y byddai taliadau uniongyrchol yn ei helpu hi i deilwro'i gofal ei hun ar ôl y llawdriniaeth.*<br><br>*Roedd cyfranogwr arall yn gwybod am rywun a gafodd daliadau uniongyrchol a bod y profiad wedi bod yn un da - roeddent wedi agor drysau i'r person hwnnw ac, o ran y baich gweinyddol, roedd aelodau o'i deulu wedi ei helpu i reoli'r taliadau.*<br><br>*Yn gyffredinol nid oedd y grŵp ffocws yn teimlo bod llawer o anfanteision i daliadau uniongyrchol - er y nodwyd bod angen i'r Llywodraeth sylweddoli na fyddai taliadau uniongyrchol yn addas i bawb.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Amherthnasol* |

| **Sylwadau cyffredinol** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Amherthnasol* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Dywedodd nifer o gyfranogwyr yr hoffent weld rhagor o Ganolfannau Dydd ledled Cymru. Dylai rhagor o bobl wybod amdanynt, a dylid rhoi gwybodaeth iddynt am y modd y gallant helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn hirach - ac fel y dywedodd un cyfranogwr," does dim rhaid iddynt ildio'u hannibyniaeth drwy ddod yma".* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Dywedodd un cyfranogwr y byddai'n hoffi cael sicrwydd na fyddai'r cyhoedd yn gallu cael gwybod faint o daliad uniongyrchol y byddai'n ei gael.* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd y grŵp ffocws yn credu bod cyfathrebu mwy effeithiol yn allweddol:*<br><br>▪ *Teimlai rhai cyfranogwyr nad oedd cyrff gwahanol yn y sector cyhoeddus, fel yr heddlu, y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn siarad â'i gilydd;* |

| | |
|---|---|
| | ▪ *Dywedodd rhai eu bod yn gorfod ailadrodd eu hunain yn aml ac roedd teimlad cyffredinol nad yw darparwyr gwasanaethau gwahanol yn gwybod beth sy'n digwydd.*<br><br>*Teimlai'r grŵp ffocws hefyd nad oedd digon o wybodaeth ar gael i'r rhai sy'n cael gofal a bod angen mynd i'r afael â hynny. Dywedodd un cyfranogwr bod y prinder gwybodaeth yn "ychwanegu at y straen mewn sefyllfa sydd eisoes yn anodd".*<br><br>*Dywedodd y grŵp ffocws eto eu bod yn gyffredinol yn erbyn y syniad o daliadau uniongyrchol.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Pwysleisiodd y grŵp ei bod yn anodd cael gwybod pa wasanaethau oedd ar gael iddynt.*<br><br>*Roeddent yn canmol staff y ganolfan dydd am ddarparu'r wybodaeth a oedd ganddynt ond teimlent y byddai'n gwneud lles i Mr a Mrs A fynd i ganolfan dydd eu hunain.*<br><br>*Roedd yn bwysig i bobl hŷn gadw at yr un drefn a dylai hyn fod yn ffactor wrth ddarparu unrhyw wasanaeth.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod angen rhagor o wybodaeth a bod angen gwella'r dulliau o hysbysebu'r gwasanaethau sydd ar gael. Hefyd, bu'r cyfranogwyr yn trafod newidiadau mewn gofal cymdeithasol yn y dyfodol pan fydd gofynion y genhedlaeth nesaf yn wahanol.*<br><br>*Roedd teimlad cryf y gellid mynd i'r afael â chamdriniaeth drwy feithrin gwell perthynas rhwng defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau, a drwy sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gyfarfod ag eraill bob dydd.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Teimlai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod angen rhagor o wybodaeth a bod angen gwella'r dulliau i hysbysebu'r gwasanaethau sydd ar gael.*<br><br>*Roedd teimlad cryf bod Canolfannau Dydd yn llesol iawn i'r gymuned ac yn helpu i gadw pobl yn brysur, i fod â diddordeb mewn rhywbeth ac yn helpu i ymladd unigrwydd.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Amherthnasol* |

**<u>Senario 2 – Diogelu ac ymyrryd</u>**

*Mae cymdogion yn poeni am Mrs B sy'n oedrannus ac yn byw gyda'i mab sydd â hanes o gamddefnyddio cyffuriau. Ymddengys nad yw'n gofalu amdani'i hun ac mae'n edrych yn gynyddol anniben. Roedd ganddi friw uwchben ei llygad yn ddiweddar. Adfeddiannwyd rhai eitemau trydanol yn ddiweddar i dalu dyledion. Mae'r cymdogion yn amau bod mab Mrs B yn ei gorfodi i roi arian iddo brynu cyffuriau. Mae gweithiwr cymdeithasol wedi galw droeon ond ni chafodd fynd i mewn i'r tŷ.*

| **Cwestiwn 9) Ydych ch'n meddwl y dylid caniatáu i weithwyr cymdeithasol fynd i mewn i dŷ os ydynt yn amau bod rhywun yn cael ei gam-drin?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Roedd teimlad cyffredinol y dylid ymyrryd.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Roedd yr holl gyfranogwyr yn credu y dylid caniatáu i weithwyr cymdeithasol fynd i mewn i dŷ bob tro y byddant yn amau bod rhywun yn cael ei gam-drin.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Roedd yr holl gyfranogwyr yn credu y dylid caniatáu i'r gweithwyr cymdeithasol fynd i mewn i'r tŷ.* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn credu y dylid caniatáu i weithwyr cymdeithasol fynd i mewn i dŷ os ydynt yn amau bod rhywun yn cael ei gam-drin.*<br><br>*Dywedodd un cyfranogwr ei bod wedi bod mewn sefyllfa debyg gan fod gan ei chymdoges oedrannus fab gwrthgymdeithasol. Cysylltodd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond nid oeddent yn gallu gwneud dim heb ganiatâd i fynd i mewn i'r eiddo ac felly nid oedd cymorth ar gael i'r gymdoges er bod amheuaeth ei bod yn cael ei cham-drin.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Roedd y mwyafrif llethol yn credu y dylid caniatáu i'r gweithwyr cymdeithasol fynd i mewn i'r tŷ.*<br><br>*Mae'n amlwg bod angen cymorth ar Mrs B ac, oherwydd ei hoed a'i hamgylchiadau, mae'n debyg na fyddai'n teimlo'n gyfforddus yn gofyn am gymorth. Mae'n bosibl bod ofn arni.*<br><br>*Teimlai'r holl gyfranogwyr y byddent am i rywun eu helpu pa baent yn yr un sefyllfa.* |

| | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd y mwyafrif llethol o blaid y syniad ac yn cytuno'n gyffredinol y dylai gweithwyr cymdeithasol ymyrryd os oeddent yn amau bod rhywun yn cael ei gam-drin.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno'n gyffredinol y dylai gweithwyr cymdeithasol ymyrryd os oeddent yn amau bod rhywun yn cael ei gam-drin.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Roedd y mwyafrif yn teimlo na ddylai'r gweithwyr cymdeithasol ymyrryd ac na ddylent fynd i mewn i'r eiddo ac y dylai Mrs B gael preifatrwydd yn ei chartref ei hun. Hi ddylai benderfynu a ddylai'r gweithwyr cymdeithasol ymyrryd.*<br><br>*Soniodd un cyfranogwr, fodd bynnag, am wraig roedd yn ei hadnabod a oedd mewn sefyllfa debyg, a phe na bai wedi gorfod mynd i'r ysbyty yn y pen draw, byddai wedi parhau i gael ei cham-drin. Ni allai ddeall sut nad oedd y cymdogion wedi sylwi ar yr hyn a oedd yn mynd ymlaen ac wedi cysylltu â'r awdurdodau.* |

| **Cwestiwn 10) Ai'r gweithiwr cymdeithasol ddylai ymyrryd?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Y teimlad cyffredinol oedd y dylid caniatáu i weithwyr cymdeithasol ymyrryd.*<br><br>*Fodd bynnag, roedd nifer o gyfranogwyr yn pryderu am ddiogelwch y gweithwyr cymdeithasol yn ogystal â Mrs. B.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Er bod y grŵp ffocws yn teimlo'i bod yn ddyletswydd ar y gweithiwr cymdeithasol i fynd i mewn i'r eiddo, roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno y dylai wneud hynny yng nghwmni heddwas, neu weithiwr cymdeithasol arall.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Teimlai'r holl gyfranogwyr na ddylai'r gweithiwr cymdeithasol fynd i mewn i'r eiddo ar ei ben ei hun (o gofio pa mor ddifrifol oedd y sefyllfa), ac y dylai fod yng nghwmni gweithiwr cymdeithasol arall neu heddwas.* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r gweithiwr cymdeithasol ymyrryd.*<br><br>*Roedd rhai'n pryderu na fyddai'r fam am i'r gwasanaethau cymdeithasol ymyrryd, o bosibl, a bod angen dangos sensitifrwydd wrth ymdrin â'r sefyllfa.*<br><br>*Roedd cytundeb cyffredinol y dylid cysylltu â'r heddlu bob amser, ac y dylid hefyd ystyried cysylltu ag aelod* |

| | |
|---|---|
| | *arall o'r teulu estynedig.*<br><br>*Roedd y cyfranogwr yn dweud bod yr heddlu'n gwybod am y mab gwrthgymdeithasol ond doedd fawr ddim y gallent ei wneud. Roedd y mab yn aml yn defnyddio'r ffaith bod ei fam yn agored i niwed fel esgus i osgoi dedfryd o garchar. Gan hynny, cafodd nifer o ddirwyon am droseddau'n ymwneud â chyffuriau.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Cytunodd y grŵp ffocws mai'r gweithiwr cymdeithasol ddylai ymyrryd, gan fod gan weithwyr cymdeithasol y cymhwyster a'r sgiliau i wneud hynny, er y byddai angen cymorth gan yr heddlu hefyd o bosibl.*<br><br>*Roedd y cyfranogwyr am nodi yma y dylai pobl fedru ymddiried yn eu gweithwyr cymdeithasol, gan y gallant helpu pobl i fanteisio ar gymorth a gwasanaethau eraill.*<br><br>*Dywedodd y grŵp ffocws hefyd fod gormod o broblemau'n cael eu 'sgubo o dan y carped mewn cymunedau'r dyddiau hyn a bod llawer yn credu nad oes a wnelo'r broblem dim â nhw ac y dylid gadael y cyfan i'r gwasanaethau cymdeithasol. Byddai Mrs B yn gwerthfawrogi cymorth gan gymdogion a ffrindiau.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Cytunodd y grŵp ffocws mai'r gweithiwr cymdeithasol ddylai ymyrryd, gan y byddai'n debygol ei fod wedi meithrin perthynas eisoes â Mrs B.*<br><br>*Tanlinellodd y grŵp bwysigrwydd y lleoliad Gofal Dydd mewn achosion fel hyn. Drwy ddod i Ganolfan Dydd bob wythnos/dydd, byddai Mrs B yn dod i gysylltiad â gweithwyr proffesiynol a fyddai'n gallu gweld bod problem a rhoi cyfle iddi drafod y broblem yn ei chartref gyda rhywun nad oedd yn aelod o'i theulu.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Roedd cytundeb cyffredinol mai gweithwyr cymdeithasol ddylai ymyrryd.*<br><br>*Pwysleisiodd nifer o gyfranogwyr fod gan weithwyr cymdeithasol ddealltwriaeth dda'n aml o'r modd y mae'r gymuned leol yn gweithio ac maent wedi'u hyfforddi i ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Nid oedd y grŵp ffocws yn sicr iawn (gweler yr ateb i gwestiwn 9), ond roeddent yn cytuno na fyddai ots gan neb arall (gan gynnwys yr heddlu) pa na bai'r gweithiwr cymdeithasol yn ymyrryd.* |

| |
|---|
| **Cwestiwn 11) Ydych chi'n cytuno ynteu'n anghytuno y dylid rhoi hawl i weithwyr cymdeithasol dorri i mewn i eiddo?** |

| | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Er mwyn sicrhau diogelwch pawb, teimliwyd yn gyffredinol y dylai'r heddlu gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol yn y cyswllt hwn, ac y dylent gael defnyddio grym os oeddent yn teimlo bod oedolyn mewn perygl.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Roedd y grŵp ffocws yn cytuno'n unfrydol y dylai gweithwyr cymdeithasol fod â'r hawl i wneud hyn; dylai'r heddlu, fodd bynnag, gynorthwyo.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Roedd y grŵp ffocws yn cytuno'n unfrydol y dylai gweithwyr cymdeithasol fod â'r hawl i wneud hyn; dylai'r heddlu, fodd bynnag, gynorthwyo.* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd y grŵp ffocws yn cytuno'n unfrydol y dylai gweithwyr cymdeithasol fod â'r hawl i wneud hyn; dylai'r heddlu, fodd bynnag, gynorthwyo.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Roedd pawb yn cytuno y dylai'r gweithwyr cymdeithasol gael defnyddio grym i fynd i mewn i'r eiddo. Gan fod cyffuriau'n rhan o'r broblem hon, dylid cysylltu â'r Heddlu hefyd, gan y gallai Mrs B gael ei hanafu.*<br><br>*Awgrymodd y grŵp ffocws y dylid ceisio annog aelodau eraill o'r teulu i ymyrryd, yn enwedig yn y sefyllfa hon gan y gellid peri cryn ofid i Mrs B drwy ddefnyddio grym i fynd i mewn i'r eiddo.*<br><br>*Yn gyffredinol, teimlai'r grŵp ffocws bod diffyg dealltwriaeth o rôl a chyfrifoldeb y gweithwyr cymdeithasol ac y dylid rhoi'r wybodaeth hon i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Nid oedd y grŵp ffocws yn gallu cytuno ar ateb i'r cwestiwn hwn.*<br><br>*Pwysleisiodd nifer o gyfranogwyr na ddylai'r gweithiwr cymdeithasol fod â'r hawl i ddefnyddio grym i fynd i mewn i'r eiddo, hyd yn oed os oedd amheuaeth bod Mrs B yn cael ei cham-drin. Teimlai'r cyfranogwyr eraill y dylai person arall, fel heddwas neu weithiwr cymdeithasol, fod gyda'r gweithiwr cymdeithasol os oedd yn mynd i ddefnyddio grym i fynd i mewn i'r eiddo.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod yn sefyllfa'n un anodd.*<br>*Roedd nifer o gyfranogwyr yn pryderu am ddiogelwch personol y gweithiwr cymdeithasol.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn - roeddent yn bryderus iawn am Mrs B ond roedd ganddi hawl i'w* |

| | |
|---|---|
| | *phreifatrwydd yn ei chartref ei hun.* |

| **Cwestiwn 12) A ddylai'r gwasanaethau cymdeithasol fod â phwerau cyfreithiol i symud oedolion sy'n agored i niwed o'u cartrefi?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Roedd y cyfranogwyr yn amau pa mor ymarferol fyddai symud oedolion sy'n agored i niwed o'u cartrefi ac roedd llawer yn cytuno y dylid ystyried amgylchiadau pob achos unigol.*<br><br>*Teimlai llawer y dylid symud y mab, nid y fam, o'r cartref.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Roedd y grŵp ffocws yn teimlo y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol fod â phwerau cyfreithiol i symud oedolion sy'n agored i niwed o'u cartrefi mewn sefyllfa o'r fath.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Er bod mwyafrif y grŵp ffocws yn teimlo y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol fod â'r hawl i wneud hyn, trafodwyd y problemau a fyddai'n codi wedyn.*<br><br>*Dywedodd un cyfranogwr y dylid symud y mab, nid y fam, o'r cartref.*<br><br>*Roedd y grŵp yn teimlo bod yn rhaid symud y mab o'r cartref neu, fel arall, pan fyddai'r fam yn dychwelyd i'r cartref, a bwrw ei bod yn ddigon da i beidio â gorfod aros yn yr ysbyty (er enghraifft) byddai ar drugaredd y mab am yr eildro.*<br><br>*Soniodd cyfranogwr arall am yr angen i weithwyr cymdeithasol gael hyfforddiant ac ennill 'cymhwyster' cydnabyddedig i arfer y grym hwn. Dylid sefydlu canllawiau i sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd a'u cynnal gan fod posibilrwydd i hyn gael ei gamddefnyddio, er nad aethant ati i fanylu ar sut y gellid ei gamddefnyddio. Teimlent fod angen cadw cydbwysedd.* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd y grŵp ffocws yn gyffredinol yn teimlo y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol fod â phwerau cyfreithiol i symud oedolion sy'n agored i niwed o'u cartrefi.*<br><br>*Dywedodd nifer o gyfranogwyr y gall gofalwyr (a hefyd y rhai sy'n derbyn gofal) weithiau droi'n fwy ymosodol oherwydd pwysau gofalu / eu hamgylchiadau anodd. Drwy hynny, roeddent yn tanlinellu'r angen i ddarparu rhagor o ofal seibiant a chymorth gan dynnu sylw at bwysigrwydd cynlluniau fel y Caffi Gofalwyr Cymunedol.* |

| | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Cytunodd y grŵp ffocws y dylent gael y pwerau hyn ond teimlai'r rhan fwyaf y dylent weithredu ar y cyd â'r heddlu, ac y dylai asiantaethau perthnasol eraill ymyrryd yn ôl yr achos.*<br><br>*Trafododd y cyfranogwyr yr angen i ofyn llawer o gwestiynau cyn penderfynu 'symud' oedolyn sy'n agored i niwed o'r cartref, a'r angen i annog pobl i ymyrryd, gan y gallai rhai deimlo'n rhy ofnus neu'n rhy bryderus am fynd i helynt.*<br><br>*Nododd un cyfranogwr y dylid cyfyngu ar bwerau gweithwyr cymdeithasol, ac y byddai gormod o bŵer yn 'mynd i'w pennau'.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Ni allai'r grŵp ffocws gytuno a ddylid rhoi'r pwerau cyfreithiol hyn i'r gwasanaethau cymdeithasol ai peidio. Os oes tystiolaeth glir fod rhywun yn cael ei gam-drin, dylent fod â'r pŵer i symud oedolyn o'r cartref, ond teimlai aelodau eraill o'r grŵp ffocws mai'r heddlu, ac nid gweithwyr cymdeithasol, ddylai fod â'r pŵer i symud oedolyn sy'n agored i niwed.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Ni allai'r grŵp ffocws gytuno a ddylid rhoi'r pwerau cyfreithiol hyn i'r gwasanaethau cymdeithasol. Pwysleisiodd nifer o gyfranogwyr y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ymyrryd os oes tystiolaeth y gall y person fod mewn perygl.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Teimlai'r grŵp ffocws y dylai Mrs B (neu aelod arall o'r teulu neu'r perthynas agosaf) fod yn rhan o'r penderfyniad ac na ddylai'r gweithiwr cymdeithasol wneud y penderfyniad ar ei ben ei hun.* |

| **Cwestiwn 13) I ble y dylid symud y fam (Mrs B)?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Cytunodd y cyfranogwyr y dylid ailgyflwyno cartrefi fel cartrefi ymadfer yng Nghymru a bod gofal seibiant yng Nghymru yn wael.*<br><br>*Tanlinellwyd bod yn rhaid ei symud i rywle addas.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Roedd y grŵp ffocws yn ei chael yn anodd dychmygu sefyllfa lle na fyddai Mrs B yn gallu symud i aros gydag aelodau o'r teulu. Dywedodd un cyfranogwr y dylid symud y mab, nid y fam, o'r cartref.* |

| | |
|---|---|
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Teimlai'r grŵp ffocws y dylai Mrs B ddychwelyd i'w chartref pe bai'r mab yn cael ei symud oddi yno. Fel arall, dylai gael mynd i ganolfan dydd fel Bryntirion.* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Y teimlad cyffredinol oedd y byddai unrhyw benderfyniad i symud oedolyn agored i niwed o'r cartref yn dibynnu ar y sefyllfa. Awgrymodd nifer o gyfranogwyr y gallai symud i lety cysgodol a/neu gartref gofal ychwanegol.*<br><br>*Roedd mwyafrif llethol y grŵp ffocws hefyd yn gefnogol iawn i ganolfannau dydd, ac awgrymodd nifer ohonynt y dylai Mrs B fynd i ganolfan dydd/caffi cymunedol neu ryw ganolfan gymdeithasol arall a fyddai'n ei helpu i rannu gofidiau.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Teimlai'r grŵp ffocws y dylid symud Mrs B i 'dŷ diogel' - a fyddai'n eiddo i'r Gwasanaethau Cymdeithasol mae'n debyg. Dylai lleoliad y 'tŷ diogel' ddibynnu ar yr amgylchiadau o ran pa mor bell o'i chartref ydyw.*<br><br>*Dylid cadw'r mab draw nes byddai wedi datrys ei broblemau cyffuriau. Ni ddylai fyw gyda Mrs B ond dylai gael ei gweld dan amgylchiadau penodol.*<br><br>*Teimlai rhai unigolion y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol gael 'tystiolaeth' fod y mab yn defnyddio cyffuriau ac na ddylid ei amau heb dystiolaeth.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Dywedodd nifer o gyfranogwyr y dylai'r fam aros yn ei chartref ac y dylid symud y mab er mwyn iddo gael triniaeth.*<br><br>*Teimlai cyfranogwyr eraill y dylid symud y fam i le diogel. Tanlinellodd nifer o gyfranogwyr fanteision 'cyfleusterau gofal ychwanegol (sef llety cysgodol gynt) a chanolfannau tebyg.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Dywedodd nifer o gyfranogwyr y dylai'r fam aros yn ei chartref ac y dylid symud y mab er mwyn iddo gael triniaeth.*<br><br>*Teimlai cyfranogwyr eraill y dylid symud y fam i le diogel, yn enwedig os yw'r mab yn ei cham-drin hi'n benodol.* |

| | |
|---|---|
| | *Roedd llefydd diogel yn cynnwys cartrefi preswyl a/neu gartrefi aelodau eraill o'r teulu.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Y dewis cyntaf fyddai ei symud i gartref aelod o'r teulu neu berthynas agos.*<br><br>*Fel arall, dylid ei symud i le diogel.* |

| **Cwestiwn 14) Nid yw'r gyfraith yn cynnwys unrhyw beth am eiriolaeth annibynnol. Ydych chi'n meddwl bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn bwysig?** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Er bod cytundeb cyffredinol nad oes digon o wasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael ar hyd a lled Cymru, byddai'n well gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr i'w plant/perthnasau agos eirioli ar eu rhan.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Nid oedd y grŵp ffocws yn gwybod rhyw lawer am wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr wedi defnyddio gwasanaeth eiriolaeth annibynnol.*<br><br>*Teimlai un cyfranogwr y byddai'n fuddiol defnyddio gwasanaeth eiriolaeth annibynnol pe na bai aelodau o'r teulu ar gael i'w cefnogi.*<br><br>*O ran egwyddor, dylai'r gwasanaeth fod yno i'w ddefnyddio pe bai raid.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Roedd gan rai cyfranogwyr ddealltwriaeth gyffredinol o'r hyn yw eiriolaeth gyffredinol. Er bod yr holl gyfranogwyr yn teimlo'i fod yn beth da, tynnodd un cyfranogwr sylw at fanteision Gwasanaeth Ymgyfeillio a ddarperir gan gyrff yn y trydydd sector yn bennaf. Teimlai y byddai'n ddigon ganddi hi wybod bod rhywun ar gael i drafod ei phroblemau. Er nad yw'n cael y gwasanaeth hwnnw ar hyd y bryd, teimlai y gellid ei gymharu â'r gwasanaeth eiriolaeth annibynnol.*<br><br>*Pe bai Eiriolaeth Annibynnol ar gael i bawb, teimlai ail gyfranogwr y dylai ail Eiriolwr Annibynnol roi feto ar argymhellion/cymorth y cyntaf.*<br><br>*Yn gyffredinol, teimlai'r grŵp nad oedd bob amser yn hawdd trafod problemau gyda pherthnasau.* |

| | |
|---|---|
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Nid oedd y grŵp ffocws yn gwybod rhyw lawer am wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr wedi defnyddio gwasanaeth eiriolaeth annibynnol.*<br><br>*O ran egwyddor, roedd cefnogaeth i'r syniad o eiriolaeth annibynnol, ac roedd y grŵp ffocws yn unfrydol o blaid cynnwys eiriolaeth annibynnol yn y Bil.*<br><br>*Dywedodd nifer o gyfranogwyr nad oedd un man cyswllt ar gyfer defnyddio gwasanaethau, ac nad oedd neb yn egluro'r gwahanol ddewisiadau oedd ar gael o ran gofal.*<br><br>*Tynnodd un cyfranogwr sylw at y ffaith y gall newidiadau (a all olygu bod angen gofal cymdeithasol) ddigwydd yn gyflym iawn ac, yn ei brofiad ef, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn "dda iawn am ddweud wrthym beth nad yw ar gael i ni, ond nid ydynt byth yn dweud wrthym beth sydd ar gael i ni".* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Teimlai'r grŵp yn gyffredinol fod y gwasanaethau hyn yn bwysig a'u bod yn 'dod â phethau i drefn i ni'.*<br><br>*Nodwyd, fodd bynnag, ei bod yn dibynnu i ryw raddau ar y Swyddog Eirioli a'i agwedd a'i brofiad ef.*<br><br>*Teimlai rhai fod eu gofalwyr personol a staff yn y ganolfan dydd hefyd yn darparu'r gwasanaeth hwn.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Roedd y grŵp ffocws yn cytuno'n gyffredinol fod eiriolaeth annibynnol yn bwysig. Nid oedd yr un cyfranogwr, fodd bynnag, wedi cael cymorth gan wasanaeth eiriolaeth annibynnol nac wedi defnyddio'r gwasanaethau a oedd ar gael. Cytunodd y grŵp y dylai gwasanaethau o'r fath fod ar gael i bawb gan na all nifer o bobl yn eu sefyllfa nhw siarad drostynt eu hunain.*<br><br>*Cyfeiriodd Rheolwr y Ganolfan at Wasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr ers tair blynedd, ond dywedodd nad oedd llawer yn gwybod am y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a oedd ar gael yn eu hardal.* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Roedd y grŵp ffocws yn cytuno'n gyffredinol fod eiriolaeth annibynnol yn bwysig. Nid oedd yr un cyfranogwr, fodd bynnag, wedi cael cymorth gan wasanaeth eiriolaeth annibynnol nac wedi defnyddio'r gwasanaethau a oedd ar gael.* |

| | |
|---|---|
| | *Nid oedd llawer yn gwybod am y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a oedd ar gael yn eu hardal. Fodd bynnag, teimlai nifer o gyfranogwyr y gallai Canolfan fel hon ddarparu gwasanaethau o'r fath yn anuniongyrchol pa bai raid.* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Amherthnasol* |

| **Sylwadau cyffredinol** | |
|---|---|
| ***Canolfan Dydd y Tyllgoed, Caerdydd*** | *Soniodd y darparwyr gwasanaeth a oedd yn rhan o'r grŵp ffocws am y buddion a gynigiwyd gan ganolfannau gofal dydd mewn perthynas â senario 2. Pe bai'r fam wedi cael cynnig gofal (mewn canolfan dydd), meddent, mae'n bosibl y byddai wedi cael cyfle i rannu ei phryderon, gan y byddai staff wrth law i ofalu amdani. Yn eu barn nhw hefyd, roedd canolfannau dydd yn cynnig amgylchedd diogel ac roedd pobl oedrannus yn fwy tebygol o siarad â gweithwyr cymdeithasol yno nag yn eu cartrefi eu hunain/amgylchedd anniogel.*<br><br>*Un sylw a gafwyd gan y grŵp ffocws oedd y dylid ailasesu anghenion pobl yn fwy rheolaidd (mae hynny'n digwydd yn achlysurol ar hyn o bryd gan ddibynnu ar ddifrifoldeb eu hanghenion).*<br><br>*Teimlai'r grŵp ffocws hefyd ei bod yn hanfodol bwysig sicrhau nad yw pobl oedrannus ar eu pennau'u hunain ac yn cael eu hesgeuluso, a'i bod yn gwneud byd o les iddynt gael mynd i leoedd cyfeillgar a chymdeithasol.* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 1*** | *Amherthnasol* |
| ***Canolfan Gofal Dydd Bryntirion, Grŵp 2*** | *Amherthnasol* |
| ***Caffi Gofalwyr Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Soniodd un cyfranogwr, cyn nyrs a fu'n ofalwr yn y gorffennol, bod yn rhaid i bobl oedrannus aros gryn dipyn am ofal cymdeithasol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith nad yw asesiadau gofal bob amser yn rhoi darlun cyflawn o anghenion y person a'u bod yn cymryd gormod o amser.*<br><br>*Roedd cyfranogwr arall yn cytuno a dywedodd fod rhai pobl oedrannus mor awyddus i adael yr ysbyty,* |

| | |
|---|---|
| | *byddant yn dweud bod eu trefniadau gartref yn ddigon da iddynt gael eu rhyddhau, er nad yw hyn yn wir bob amser. Un ffordd o oresgyn y broblem hon fyddai sicrhau bod y teulu ehangach/perthynas agosaf yn cael mwy o ran yn yr asesiad gofal.* |
| ***Canolfan Dydd Melrose, Shotton*** | *Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr ei bod yn anodd i rai deithio i'r ganolfan dydd, ac nad oeddent yn dod i'r ganolfan oherwydd hynny.* |
| ***Canolfan Dydd Stryd Minerva, Pen-y-bont ar Ogwr*** | *Amherthnasol* |
| ***Canolfan Dydd Widdershins, Torfaen*** | *Amherthnasol* |
| ***Encil y Coed, Criccieth*** | *Amherthnasol* |